



**CORFFORAETH ADDYSG BELLACH COLEG GWENT**  
**ADRODDIAD BLYNYDDOL Y SWYDDOG LLYWODRAETHU**  
**2018/19**



## 1. **CYFLWYNIAD**

- 1.1 Mae'r Adroddiad Blynyddol hwn wedi ei baratoi gan y Swyddog Llywodraethu i roi sicrwydd i Lywodraeth Cymru bod gweithgareddau Corfforaeth Coleg Gwent yn ystod y flwyddyn hyd at 31 Gorffennaf 2019, wedi eu gwneud yn unol â gofynion statudol perthnasol ac yn unol â'r gweithdrefnau a'r strwythur llywodraethu a nodir yn Offeryn ac Erthyglau Llywodraethu Coleg Gwent.
- 1.2 Mabwysiadodd y Gorfforaeth y Cod Llywodraethu Da ar gyfer Colegau yng Nghymru yn ffurfiol ym mis Hydref 2016. Mae'r Cod yn nodi gofynion statudol ac arfer gorau cymeradwy llywodraethu gyda'r nod o gefnogi byrddau coleg i fodloni eu cyfrifoldebau'n llwyddiannus. Mae Corfforaeth Coleg Gwent yn ceisio bodloni (a lle'n bosibl, rhagori ar) yr arfer gorau a nodwyd yn y Cod ac fel rhan o'r broses hunanasesu, ymgymryd ag adolygiad blynyddol o'i berfformiad yn erbyn y Cod.

## 2. **ADOLYGIAD LLYWODRAETHU**

- 2.1 Adolygodd a diweddarodd y Gorfforaeth ei chyfansoddiad a strwythur ddiwethaf yn 2014. Mewn Seminar Strategaeth ym mis Hydref 2018, nododd y Bwrdd bod angen cynnal adolygiad newydd. Sefydlwyd gweithgor yn cynnwys y Llywodraethwyr, y Pennaeth, Dirprwy Benaethiaid a'r Swyddog Llywodraethu.

Yn dilyn cyfres o gyfarfodydd, gwnaeth y gweithgor argymhellion ar gyfer newidiadau i'r strwythur llywodraethu, gan gynnwys sefydlu dau is-bwyllgor i gefnogi gwaith y Bwrdd, a chynyddu nifer yr aelodau i gefnogi hyn.

O 2019-20, bydd y Pwyllgor Cyllid ac Adnoddau yn cynghori'r Bwrdd ynghylch materion adnoddau dynol, cyllid, ystadau ac isadeiledd/TG ac yn monitro cynnydd prosiectau strategol mawr. Bydd y Pwyllgor Cwricwlwm ac Ansawdd yn goruchwyllo rheoli ansawdd, perfformiad a datblygu ar draws holl feysydd academaidd y Coleg a phrofiad ehangach y dysgwr.

Parhaodd paratoadau ar gyfer y newidiadau hyn drwy gydol 2018-19 a chymeradwyodd y Bwrdd Amserlen Ddirprwyo sy'n rhoi eglurder a chysondeb i'r broses gwneud penderfyniadau. Mae dau Lywodraethwr ychwanegol wedi eu recriwtio ac mae'r Swyddog Llywodraethu wedi gweithio gyda'r uwch dîm rheoli a Chadeiryddion pwyllgor i gwblhau rhaglenni gwaith. Mae pob pwyllgor yn adrodd i'r Bwrdd drwy Adroddiad Cadeirydd y Pwyllgor ffurfiol sy'n nodi materion sydd angen penderfyniad neu drafodaeth bellach gan y Bwrdd, eitemau sy'n cynnig sicrwydd i'r Bwrdd ac eitemau er gwybodaeth.

## 3. **AELODAETH Y GORFFORAETH**

### 3.1 **Aelodaeth Benodedig**

Fel rhan o'r adolygiad llywodraethu, cytunwyd ym mis Ionawr 2019 y byddai'r nifer o aelodau Bwrdd penodedig yn codi o un ar bymtheg i ddeunaw er mwyn hwyluso'r broses o gyflwyno is-bwyllgorau ychwanegol. Felly, mae'r aelodaeth nawr yn cynnwys tri ar ddeg o Lywodraethwyr annibynnol o ystod o gefndiroedd, gan gynnwys cyflogwyr lleol yn y sectorau preifat a chyhoeddus.

Mae aelodaeth hefyd yn cynnwys y Pennaeth/Prif Weithredwr, ynghyd â dau aelod o Staff a dau Fyfyriwr Lywodraethwr.

### **2018-19 aelodaeth**

Yr aelodau a wasanaethodd ar Gorfforaeth Coleg Gwent yn ystod 2018-19 oedd:

- Mark Langshaw (Cadeirydd)
- Hilary Aldrige (Is-gadeirydd)
- Guy Lacey (Pennaeth/Prif Weithredwr)
- Hamed Amiri
- Sue Ball
- Anthony Basnett
- Liam Billingsley (Myfyriwr Lywodraethwr)
- Elizabeth Brimble Penodwyd Mehefin 2019
- Sam Chapman Skinner (Myfyriwr Lywodraethwr) Ymddeolodd Rhagfyr 2018
- Darragh Hanley-Crofts
- Sian Hughes (Llywodraethwr Staff) Ail-benodwyd Rhagfyr 2018
- Ray Morrison
- Caitlin Nedahl Penodwyd Ionawr 2019/Ymddiswyddodd Mai 2019  
Penodwyd Mehefin 2019
- John Phelps
- Neil Phillipott
- Wendy Rogers
- Denise Ryan Penodwyd Mehefin 2019
- Elizabeth Swaffield
- Martin Veale
- Paul Davenport (Aelod Allanol) Ail-benodwyd Rhagfyr 2018
- Gareth Watts (Aelod Allanol) Ail-benodwyd Rhagfyr 2018

### **3.2 Penodiadau**

Mae pob penodiad i'r Gorfforaeth yn amodol ar gymeradwyaeth y Bwrdd, ar argymhelliad y Pwyllgor Chwilio.

#### **Tymor yn y swydd**

Ac eithrio'r Pennaeth/Prif Weithredwr a Myfyrrwyr Lywodraethwyr, mae pob aelod fel arfer yn cael eu penodi am dymor o dair blynedd. Maent fel arfer yn gwasanaethu am dri thymor ar y mwyaf (naw mlynedd ar y cyfan). Mae'r Bwrdd o'r farn bod tymor o'r hyd hwn yn galluogi Llywodraethwyr i ddatblygu dealltwriaeth dda o'r Coleg ac yn sicrhau arweiniad parhaus, gan roi cyfle i gyflwyno syniadau newydd yn rheolaidd.

Nid oes ailbenodiad awtomatig ar ddiwedd pob tymor yn y swydd, a dyletswydd y Bwrdd yw penderfynu ail-benodi, ar argymhelliad y Pwyllgor Chwilio. Mae'r penderfyniad i ail-benodi yn seiliedig ar adolygiad o gyfraniad ac ymrwymiad yr aelod, ynghyd â gofynion presennol y Bwrdd.

## **Cymhwysra**

Mae cymhwysra pob aelod newydd yn cael ei wirio cyn i'r Bwrdd gymeradwyo'r penodiad. Mae'r Swyddog Llywodraethu yn cynnal gwiriadau gan gyfeirio at Adran 7 o Offeryn Llywodraethu Corfforaeth Coleg Gwent. Mae hyn yn cynnwys chwiliad o'r Gofrestr Methdal a'r Gofrestr Cyfarwyddwyr wedi eu Gwahardd. Mae pob aelod hefyd yn cwblhau gwiriad DBS manylach ar eu penodiad.

## **Cadeirydd ac Is-gadeirydd**

Mae'r Gorfforaeth yn gweithredu gyda Chadeirydd ac un Is-gadeirydd. Mae pob un yn cael eu hethol gan y Bwrdd i wasanaethu am ddau dymor yn y swydd a gallant gael eu hail-benodi i wasanaethu am dri thymor ar y mwyaf (chwe blynedd i gyd) yn y rôl honno. Mae ethol y Cadeirydd a'r Is-gadeirydd yn digwydd bob yn ail flwyddyn er mwyn sicrhau arweiniad parhaus.

Etholwyd Mr Mark Langhsaw i'r Bwrdd i wasanaethu fel Cadeirydd am dymor o ddwy flynedd o 1 Awst 2018. I gymryd lle Mr Langshaw fel Is-gadeirydd, penodwyd Ms Hilary Aldridge am dymor cychwynnol o flwyddyn o 1 Awst 2018. Cafodd ei hailbenodi wedyn am dymor pellach o ddwy flynedd o 1 Awst 2019.

## **Llywodraethwyr â chyfrifoldebau arbennig**

Yn ystod 2018-19, Mr Hamed Amiri oedd y Llywodraethwr ar gyfer Cydraddoldeb ac Amrywiaeth. Mr Langhsaw oedd y Llywodraethwr ar gyfer Diogelu nes i'r adolygiad Llywodraethu ddod i ben. Ms Denise Ryan sydd nawr yn y swydd ar gyfer blwyddyn academiaidd 2019-20. Bydd rôl newydd o Lywodraethwr ar gyfer Iechyd a Diogelwch o 2019-20, a fydd yn cael ei llenwi gan Mr John Phelps.

## **Treuliau**

Mae aelodau'r Gorfforaeth a'i phwyllgorau yn gwasanaethu ar sail wirfoddol, ddi-dâl. Mae gan aelodau hawl i hawlio am gostau teithio a chynhaliath rhesymol sy'n codi mewn perthynas uniongyrchol â'u rôl. Mae costau a hawliwyd yn ymwneud yn bennaf â theithio yn ôl ac ymlaen o gyfarfodydd, ond hefyd yn cynnwys lluniaeth a digwyddiadau allanol ar ran y Coleg, neu nwyddau traul hanfodol.

Mae costau yn cael eu hawlio drwy borth Adnoddau Dynol hunanwasanaeth y coleg, ac yn cael eu gwirio a'u cymeradwyo gan y Swyddog Llywodraethu. Os yw'r Cadeirydd yn cyflwyno cais, mae'n cael ei wirio a'i gymeradwyo gan y Swyddog Llywodraethu a'r Is-gadeirydd (Adnoddau a Chynllunio) neu'r Pennaeth/Prif Weithredwr.

Yn ystod y flwyddyn hyd at 31 Gorffennaf 2019, talwyd treuliau cymwys yn unig, a oedd yn gyfanswm o £1313.70. Mae'r ffigwr hwn yn cynnwys talu am draul yr hawliwyd gan y Cadeirydd blaenorol yn berthnasol i flwyddyn academiaidd 2017-18.

## **Cytundebau ar gyfer cyflenwi nwyddau a gwasanaethau**

Yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Gorffennaf 2019, ni roddodd Coleg Gwent gytundeb ar gyfer nwyddau neu wasanaethau i unrhyw aelod pwyllgor

neu Gorfforaethol, nac i unrhyw sefydliad y mae aelod yn uniongyrchol gysylltiedig â hwy, oni bai er mwyn mynd ar drywydd ei fusnes o ddarparu addysg a hyfforddiant er budd y gymuned leol.

## Buddiannau

Mae pob aelod yn cwblhau Datganiad o Fuddiannau wedi iddynt gael eu penodi. Mae hwn yn rhestru'r holl fuddiannau sydd ganddynt hwy (neu aelod agos o'r teulu) a allai (neu a all ymddangos i) beri gwrthdaro wrth arfer eu beirniadaeth annibynnol wrth ymgymryd â'u cyfrifoldebau fel Llywodraethwr/aelod pwyllgor. Mae Cofrestr Buddiannau'r Aelodau yn cael ei gadw gan y Swyddog Llywodraethu ac mae eitem agenda yn cael ei chynnwys ym mhob cyfarfod Bwrdd a phwyllgor sy'n galluogi aelodau i ddatgan unrhyw fuddiannau mewn perthynas ag eitemau a phynciau trafod penodol. Cofnodir yr holl fuddiannau ynghyd ag unrhyw gamau a gymerwyd yn y cofnodion.

Mae Cofrestr Buddiannau'r Aelodau ar gyfer 2018-19 i'w gweld isod er gwybodaeth:

Enw	Manylion y buddiant	Dyddiad y datgelwyd y buddiant	Dyddiad diweddaru'r Gofrestr
<b>Hilary Aldridge</b> (Is-gadeirydd)	<ul style="list-style-type: none"> <li>Partner, Wyeswood Properties</li> <li>Cyfarwyddwr, Cernunos Developments Ltd.</li> <li>Partner, Nathan House Flats</li> <li>Llywodraethwr/Aelod, Ridgeway Learning Partnership</li> <li>Llywodraethwr, Coleg York (wedi dod i ben)</li> <li>Cyfarwyddwr, Brook House Flats Ltd.</li> </ul>	23.04.18 23.04.18 23.04.18 23.04.18 23.04.18 08.10.18	24.04.18 23.04.18 23.04.18 23.04.18 01.08.18 08.10.18
<b>Hamed Amiri</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Cyflogai, Target Group Ltd (wedi dod i ben)</li> <li>Cyflogai, NewLaw Solicitors, Caerdydd</li> </ul>	16.04.08 18.06.19	26.06.19 26.06.19
<b>Sue Ball</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Cyflogaeth - Cyfarwyddwr Cynorthwyol y Gweithlu a Datblygu Sefydliadol, Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan</li> <li>Aelod o Gyngor Eglwys y Plwyf, Eglwys Sant Marc, Casnewydd</li> </ul>	26.03.18 26.03.18	23.04.18 23.04.18
<b>Anthony Basnett</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Cyn weithiwr, Cisco International Ltd. (dod i ben 16/06/19)</li> <li>Gwraig – cyflogai Coleg Gwent</li> <li>Cyflogai – VMWARE o 17/06/19</li> </ul>	17.01.18 17.01.18 21.05.19	22.05.19 19.01.18 22.05.19
<b>Liam Billingsley</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Is-lywydd, Undeb Myfyrwyr Coleg Gwent</li> </ul>	17.09.18	17.09.18
<b>Elizabeth Brimble</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Cyfarwyddwr Cymwysterau, Cofrestru ac Addaswydd i Ymarfer, Cyngor y Gweithlu Addysg</li> </ul>	29.05.19	10.06.19
<b>Sam Chapman Skinner</b> (ymddeolodd Rhagfyr 2018)	<ul style="list-style-type: none"> <li>Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau</li> </ul>		
<b>Darragh Hanley-Crofts</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Cyflogai, Corfforaeth Darlledu Prydain (BBC)</li> <li>Aelod, Sefydliad Cyfrifwyr Siartredig Cymru a Lloegr (ICAEW)</li> </ul>	01.08.17 01.08.17	30.09.17 30.09.17
<b>Sian Hughes</b> (Llywodraethwyr Staff)	<ul style="list-style-type: none"> <li>Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau</li> </ul>	-	03.10.16
<b>Guy Lacey</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Llywodraethwr, Ysgol Gyfun y Coed Duon, Caerffili</li> </ul>	08.10.15	08.10.15

(Pennaeth/Prif Weithredwr)	<ul style="list-style-type: none"> <li>Llywodraethwr, Ysgol Gyfun Trefynwy</li> <li>Cyngorydd, YPRENTIS (partneriaeth rhwng Cartrefi Melin a Chyngor Sir Fynwy)</li> <li>Cyfarwyddwr, Colegau Cymru</li> </ul>	08.10.15 17.04.18 01.09.18	08.10.15 17.04.18 01.09.18
<b>Mark Langshaw</b> (Cadeirydd)	<ul style="list-style-type: none"> <li>Cyfarwyddwr Continental Teves (Cyflogaeth). Mae'r cwmni yn gwsmer hyfforddi ar gyfer y Coleg ac yn cyflogi prentisiaid sy'n mynychu'r Coleg.</li> <li>Cadeirydd, Prosiect Effaith Blaenau Gwent, Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent (di-dâl)</li> <li>Cadeirydd Bwrdd Menter Blaenau Gwent (di-dâl)</li> <li>Cadeirydd Bwrdd Cyngori Strategol, y Cymoedd Technoleg (di-dâl)</li> <li>Cyfarwyddwr, Fforwm Modurol Cymru</li> <li>Cyn-gyngorydd Arbennig i Ymddiriedolaeth Hamdden Aneurin (ymddeolodd 01.04.17)</li> </ul>	09.11.16 09.11.16 09.09.18 09.09.18 09.11.16 09.11.16	10.11.16 09.11.16 09.09.18 09.09.18 09.11.16 09.09.18
<b>Ray Morrison</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Cyberchennog a chyd-gyfarwyddwr, Bowmor Ltd. yn masnachu fel Bluebird Care Casnewydd (gofalwr cartref ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol i oedolion)</li> <li>Gwirfoddolwr (Hyrwyddwr Cyfeillion Dementia), y Gymdeithas Alzheimers</li> <li>Aelod, Grŵp Gweithredu Dinas Ystyriol o Dementia Cyngor Dinas Casnewydd</li> <li>Aelod, Fforwm Darparwyr Partneriaeth Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles Gwent Fwyaf</li> <li>Aelod, Grŵp Cyswllt Gweithredol Gofal Cartref, Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan</li> </ul>	09.08.18 09.08.18 09.08.18 09.08.18 09.08.18	09.08.18 09.08.18 09.08.18 09.08.18 09.08.18
<b>Caitlin Nedahl</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau</li> </ul>	06.01.19	06.01.19
<b>John Phelps</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Ymgynghorydd Addysg a Hyfforddiant Addysg Bellach Hunangyflogedig gan gynnwys: <ul style="list-style-type: none"> <li>Cymwysterau Cymru - adolygiad o gymwysterau peirianeg (Cyngorydd Sector)</li> <li>Gwaith asesu dysgu yn seiliedig ar Waith ar gyfer Coleg Merthyr</li> </ul> </li> </ul>	29.05.19	10.06.19
<b>Neil Phillpott</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Rheolwr Gweithrediadau, Grŵp Midas (Cyflogaeth)</li> </ul>	21.08.18	21.08.18
<b>Wendy Rogers</b> (Llywodraethwr Staff)	<ul style="list-style-type: none"> <li>Is-gadeirydd, Undeb Prifysgolion a Cholegau, Coleg Gwent</li> <li>Cadeirydd, Undeb Prifysgolion a Cholegau, Campws Crosskeys</li> </ul>	10.08.18 10.08.18	10.08.18 10.08.18
<b>Denise Ryan</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau</li> </ul>	28.05.19	13.06.19
<b>Lizzie Swaffield</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Cyflogai, Prifysgol Cymru'r Drindod Dewi Sant</li> <li>Cyfranddaliwr, Swaffield Ltd (Busnes gwasanaethau peirianeg)</li> <li>Gŵr - perchennog Swaffield Ltd</li> <li>Aelod, Sefydliad Corfforedig Elusennol Pafiliwn Grange (Prosiect trosglwyddo ased cymunedol lleol mewn partneriaeth â Phrifysgol Caerdydd)</li> <li>Cyflogai - Swaffield Ltd, - Gwaith ymgynghori ar gyfer Oxfam Cymru</li> </ul>	20.06.17 20.06.17 20.06.17 19.07.18 01.04.19	31.07.17 31.07.17 31.07.17 19.07.18 01.04.19
<b>Martin Veale</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Aelod Annibynnol a Chadeirydd Pwyllgor Archwilio, Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre</li> <li>Aelod Bwrdd a Chadeirydd Pwyllgor Archwilio, Chwaraeon Cymru</li> </ul>	15.03.16 01.09.18	16.03.16 05.09.18

	• Ynad Heddwch, Mainc Canolbarth Cymru	12.09.16	03.11.16
	• Aelod Lleyg, Cyngor Sir Penfro	15.06.17	15.06.17
	• Aelod Lleyg, Pwyllgor Archwilio, Iechyd Cymuned Bryste	01.08.17	01.08.17
	• Llywodraethwr, Ysgol Gynradd Coedpenmaen, Pontypridd	14.12.14	14.12.14
	• Cyn-yymddiriedolwr a Chadeirydd Pwyllgor Cyllid, Ymddiriedolaeth Hamdden Merthyr Tudful (wedi dod i ben 18/4/19)	12.09.16	06.09.19
	• Aelod Lleyg, Pwyllgor Safonau Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful	11.04.19	11.04.19
	• Cyfarwyddwr, Cwmni Buddiannau Cymunedol, Datblygiad Fferm Wynt Pen y Cymoedd (i fod i ddechrau mis Mehefin 2019)	11.04.19	11.04.19
<b>Gareth Watts</b> (Aelod Allanol)	• Cyflogai, Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru; Pennaeth Archwilio Mewnol	20.10.15	25.10.15
	• Aelod Corff Llywodraethu, Ysgol Meadowbank, Caerdydd	17.10.17	08.11.17
<b>Paul Davenport</b> (Aelod Allanol)	• Wedi ei gyflogi gan Opal Vauxhall Finance: Cyfarwyddwr Archwilio	15/12/15	21/12/15

## Cynefino a Datblygiad Aelodau'r Gorfforaeth

Ym mis Gorffennaf 2018, cymeradwydd y Pwyllgor Chwilio Weithdrefn newydd ar gyfer Recriwtio, Penodi a Chynefino Aelodau'r Gorfforaeth. Mae aelodau newydd yn cael Pecyn Cynefino sy'n cynnwys copiâu o ddogfennau allweddol gan gynnwys Offeryn ac Erthyglau Llywodraethu ac Archebion Sefydlog Coleg Gwent, y Memorandwm Dealltwriaeth Ariannol gyda Llywodraeth Cymru a'r Cod Llywodraethu da ar gyfer Colegau yng Nghymru.

Mae aelodau newydd yn ymgymryd â phroses cynefino sy'n cynnwys cyfarfodydd cychwynnol gyda'r Swyddog Llywodraethu, y Cadeirydd a'r Pennaeth/Prif Weithredwr. Mae'r cyfarfodydd hyn yn rhoi golwg bras o'r Coleg a'i Genhadaeth a Gweledigaeth strategol yn ogystal â materion llywodraethu allweddol. Mae'r cyfnod cynefino hefyd yn cynnwys cyfarfodydd gyda phob un o'r Is-benaethiaid sy'n cynnig golwg bras ar eu meysydd cyfrifoldeb.

Mae gan bob aelod fynediad at ystod eang o wybodaeth ac arweiniad trwy ardal y Gorfforaeth ar Rhith-amgylchedd Dysgu'r Coleg ac mae Llywodraethwyr yn cwblhau nifer o fodiwlau hyfforddi ar-lein ar bynciau gan gynnwys Diogelu, Atal, Cydraddoldeb ac Amrywiaeth a Diogelu Data/GDPR.

Mae cyfarfodydd briffio cyn cyfarfodydd yn sicrhau bod y Bwrdd yn ymwybodol o faterion sy'n codi a mentrau allweddol. Yn ystod 2018/19, roedd pynciau'r cyfarfodydd briffio hyn yn cynnwys:

- Bil Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru)
- Sicrhau ansawdd Addysg Uwch
- Y Strategaeth Dechnoleg
- Y Strategaeth Addysgu a Dysgu
- Hunanasesiad Llywodraethu.

Yn ystod y flwyddyn, roedd Bwrdd y Coleg yn cael ei gynrychioli mewn trafodaethau trawsbleidiol yn ymwneud â chyllid ac iechyd meddwl yn y sector

Addysg Bellach, a mynychodd y Cadeirydd, ynghyd â nifer o Lywodraethwyr eraill, Gynhadledd Flynyddol Colegau Cymru. Mae Llywodraethwyr hefyd wedi bod yn falch o gefnogi digwyddiadau ar draws y Coleg gan gynnwys perfformiadau, cystadlaethau sgiliau, arddangosfeydd a nosweithiau gwobrwyo.

## **CYFARFODYDD BWRDD A PHWYLLGOR**

### **Cyfarfodydd Bwrdd**

Yn ystod 2018-19 cafodd y Bwrdd naw cyfarfod ar y dyddiadau canlynol:

- 23 Hydref 2018
- 20 Tachwedd 2018
- 18 Rhagfyr 2018
- 22 Ionawr 2019
- 19 Chwefror 2019
- 27 Mawrth 2019
- 21 Mai 2019
- 18 Mehefin 2019
- 23 Gorffennaf 2019

Ym mis Ionawr 2019, cytunodd y Bwrdd y dylid codi'r cworwm gofynnol ar gyfer cyfarfod Bwrdd o 40% i 50% o aelodau cymwys yn bresennol. Roedd gan bob cyfarfod Bwrdd yn ystod y flwyddyn gworwm.

### **Adrodd a Monitro**

Yn ystod pob cyfarfod Bwrdd, mae'r Is-Bennaeth (Adnoddau a Chynllunio) yn cyflwyno Adroddiad Ariannol manwl. Mae hwn yn amlinellu perfformiad ariannol yn erbyn y gyllideb a dangosyddion perfformiad allweddol ariannol. Yn ychwanegol, mae'r Is-bennaeth (Cwricwlwm ac Ansawdd) yn cyflwyno adroddiadau rheolaidd ar recriwtio dysgwyr yn erbyn targedau.

Mae'r Bwrdd hefyd yn derbyn adroddiadau rheolaidd ar ganlyniadau dysgwyr, Diogelu a Llais y Dysgwr. Mae'r tîm Rheoli yn cyflwyno 'dangosfyrddau' strategol cryno ar fentrau a phrosiectau allweddol gan gynnwys Strategaeth Technoleg y Coleg a'r Strategaeth Dysgu ac Addysgu. Mae pob adroddiad i'r Bwrdd yn cynnwys asesiad o risg ac yn nodi sut mae'n cysylltu ag amcanion strategol allweddol y Coleg.

Mae gwaith is-bwyllgorau'r Gorfforaeth yn cael ei adrodd i'r Bwrdd drwy Adroddiadau Cadeiryddion Pwyllgorau. Yn ystod 2018-19 cryfhawyd y broses hon trwy gyflwyno templed adroddiad safonol sy'n categoreiddio ac yn blaenoriaethu eitemau i sylw'r Bwrdd.

### **Cymeradwyo gwariant**

Yn unol â Rheoliadau Ariannol y Coleg, mae'r Bwrdd yn cymeradwyo gwariant cyfalaf o dros £250,000. Mae cynnydd prosiectau cyfalaf yn cael ei fonitro drwy'r



Adroddiad Ariannol Misol ac mae'r Bwrdd a'i bwyllgorau hefyd yn adolygu crynodebau 'dangosfwrdd' ar gyfer prosiectau cyfalaf sylweddol.

Yn 2018-19, cymeradwyodd y Bwrdd wariant cyfalaf ar:

- Meddalwedd Dangosfwrdd Deallusrwydd Busnes a Data
- Datblygiad Canolfan Rhagoriaeth ar gyfer Arlwyo ar Gampws Brynbuga
- Cyfleusterau newydd ar gyfer darpariaeth Colegau Gyrfa mewn TGCh ar Gampysau Crosskeys a Dinas Casnewydd
- Gwaith ailwampio ac ail-leoli swyddogaethau allweddol o Gampws Pont-y-pŵl
- Dodrefn, offer a TGCh ar gyfer Parth Dysgu Torfaen
- Gwelliannau i rwydweithiau TG er mwyn cefnogi defnydd ehangach o ddyfeisiau symudol.

## **PWYLLGORAU**

Mae is-bwyllgorau yn cefnogi gwaith y Bwrdd. Yn ystod 2018-19, gweithredodd Bwrdd Coleg Gwent o fewn yr is-bwyllgorau canlynol:

- Pwyllgor Archwilio
- Pwyllgor Chwilio
- Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol
- Pwyllgor Apeliadau.

Fel y nodwyd eisoes, yn ôl argymhelliad y Gweithgor Adolygu Llywodraethu, ym mis Ionawr 2019, cymeradwyodd y Bwrdd gynnig i sefydlu dau is-bwyllgor ychwanegol. O 2019-20, bydd y Bwrdd hefyd yn elwa o fewnbwn:

- Pwyllgor Cwricwlwm Ac Ansawdd
- Pwyllgor Cyllid Ac Adnoddau.

### **Pwyllgor Archwilio**

Mae'r Pwyllgor Archwilio yn cynnwys pedwar Llywodraethwr a dau aelod allanol ychwanegol gyda phrofiad arbenigol o archwilio neu gyfrifeg. Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio ar gyfer 2018-19 oedd Mr Martin Veale.

Nid yw Cadeirydd y Gorfforaeth na'r Pennaeth/Prif Weithredwr yn gwasanaethu ar y Pwyllgor Archwilio ac yn unol ag argymhellion Cod Ymddygiad Archwilio Addysg Bellach Cymru (ACOP), nid yw aelodau myfyrwyr na staff y Gorfforaeth yn gwasanaethu ar y pwyllgor. Fodd bynnag, mae'r Pennaeth a'r Is-bennaeth (Adnoddau a Chynllunio) yn mynychu'r cyfarfodydd, ynghyd â'r Cyfarwyddwr Cyllid. Mae uwch reolwyr eraill yn cael gwahoddiad i fynychu pan fo'n briodol, mewn perthynas ag eitemau busnes penodol. Mae cynrychiolwyr o wasanaethau archwilio mewnol ac allanol yn mynychu holl gyfarfodydd y pwyllgor ac mae'r pwyllgor yn cyfarfod â'r cynrychiolwyr hyn yn breifat o leiaf unwaith y flwyddyn.

Yn 2018-19, cyfarfu'r Pwyllgor Archwilio bedair gwaith ar:

- 6 Tachwedd 2018
- 5 Mawrth 2019
- 8 Mai 2019
- 2 Gorffennaf 2019

Er mwyn i gyfarfodydd y Pwyllgor Archwilio fod â chworwm, mae'n rhaid i 50% o aelodau fod yn bresennol, ac mae'n rhaid i ddau o'r rheiny fod yn aelodau Bwrdd. Roedd gan bob cyfarfod pwyllgor yn 2018-19 gworwm.

Mae Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio yn rhoi adroddiad cryno i'r Bwrdd o fusnes y pwyllgor ar ôl pob cyfarfod. Mae'r adroddiad hwn yn blaenoriaethu eitemau, yn amlygu'r rheiny sy'n cael eu hargymell am gymeradwyaeth neu sydd angen sylw'r Bwrdd. Mae'r pwyllgor hefyd yn cyflwyno Adroddiad Blynyddol manwl i'r Bwrdd. Mae'r adroddiad hwn yn rhoi trosolwg o fusnes y pwyllgor ac yn cynnig barn y Pwyllgor Archwilio ar brosesau rheoli risg, rheoli mewnol a llywodraethu'r Coleg. Mae barn y Pwyllgor Archwilio yn seiliedig ar ei waith ei hun a gwaith archwilyr mewnol ac allanol ar gyfer y flwyddyn, gyda'r Adroddiad Blynyddol Archwilio Mewnol yn cael ei gyflwyno hefyd. Yn dilyn adolygiad gan y Bwrdd, mae'r adroddiad hwn yn llunio rhan o'r cyflwyniadau blynyddol i Lywodraeth Cymru.

Adolygodd y Pwyllgor Archwilio ei Gylch Gorchwyl yng nghyfarfod mis Gorffennaf 2019. Argymhellwyd rhai newidiadau bychan, a chafodd y newidiadau hyn eu cymeradwyo wedyn gan y Bwrdd. Mae copi o Gylch Gorchwyl diweddaraf y Pwyllgor Archwilio wedi ei atodi yn Atodiad 1.

### **Pwyllgor Chwilio**

Cafodd aelodaeth y Pwyllgor Chwilio ei adolygu o 6 aelod i 5 aelod yn ystod 2018-19. Mae aelodaeth yn cynnwys Cadeirydd ac Is-gadeirydd y Gorfforaeth, y Pennaeth/Prif Weithredwr, un Llywodraethwr annibynnol arall a Myfyriwr Lywodraethwr. Cadeirydd cyfarfod cyntaf 2018-19 oedd Ms Hilary Aldridge (Is-gadeirydd y Gorfforaeth), gyda Ms Sue Ball yn cael ei phenodi fel Cadeirydd y Pwyllgor Chwilio o fis Ionawr 2019.

Yn ystod 2018-19, cyfarfu'r Pwyllgor Chwilio deirgwaith ar:

- 4 Rhagfyr 2018
- 2 Mai 2019
- 9 Gorffennaf 2019

Er mwyn i gyfarfod y Pwyllgor Chwilio fod â chworwm, mae'n rhaid i 50% o aelodau fod yn bresennol. Roedd cworwm ym mhob cyfarfod y pwyllgor yn ystod y flwyddyn, fodd bynnag penodwyd Llywodraethwr annibynnol i'r pwyllgor ar gyfer cyfarfod mis Rhagfyr 2018 oherwydd salwch.

Cyfrifoldeb y Bwrdd yw penodi ac ail-benodi, fodd bynnag, mae pob penderfyniad o'r fath yn cael eu gwneud dan gyngor y Pwyllgor Chwilio. Fel rhan o'r broses penodi, mae'r pwyllgor yn cyfarfod â'r holl ddarpar benodedigion, gan gynnwys Myfyryr Lywodraethwyr a Staff etholedig ac yn adolygu data allweddol y Bwrdd yn rheolaidd, gan gynnwys sgiliau ac amrywiaeth, presenoldeb, dyddiadau penodi a datblygiad Llywodraethwr.

Y penodiadau a gymeradwywyd ar argymhellion y Pwyllgor Chwilio yn 2018-19 oedd:

		<b>Dyddiad penodi</b>
Caitlin Nedahl	Myfyriwr Llywodraethwr	01.01.19
Elizabeth Brimble	Llywodraethwr	01.06.19
John Phelps	Llywodraethwr	01.06.19
Denise Ryan	Llywodraethwr	01.06.19
		<b>Ail-benodiadau</b>
Sian Hughes	Llywodraethwr Staff	01.12.18
Paul Davenport	Aelod Pwyllgor Archwilio Allanol	01.12.18
Gareth Watts	Aelod Pwyllgor Archwilio Allanol	01.12.18
Mark Langshaw	Llywodraethwr	01.08.19


Mae Cadeirydd y Pwyllgor Chwilio yn cyflwyno adroddiad i'r Bwrdd o waith y pwyllgor ar ddiwedd pob cyfarfod. Fel y Pwyllgor Archwilio, mae hyn yn blaenoriaethu eitemau sy'n cael eu hargymell i'w cymeradwyo neu eitemau mae'r pwyllgor yn teimlo eu bod angen ystyriaeth bellach. Mae'r pwyllgor hefyd yn cyflwyno Adroddiad Blynyddol yn manylu ar ei waith i'r Bwrdd er gwybodaeth.

Adolygodd y Pwyllgor Chwilio ei Gylch Gorchwyl yng nghyfarfod mis Mai 2019 a chafodd newidiadau eu cymeradwyo wedyn gan y Bwrdd. Mae copi o Gylch Gorchwyl presennol y Pwyllgor Chwilio wedi ei atodi yn Atodiad 2.

### **Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol**

Mae'r Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol yn cyfarfod yn flynyddol i ystyried perfformiad, telerau ac amodau a thâl y pedwar deiliad swydd uwch (y Pennaeth/Prif Weithredwr, y Dirprwy Benaethiaid a'r Swyddog Llywodraethu). Cyfarfu'r pwyllgor ar 18 Mawrth 2019 ac yn dilyn y cyfarfod hwnnw, cymeradwyodd y Bwrdd argymhelliad yn berthnasol â dyfarniad tâl blynyddol y Swyddog Llywodraethu yn unol â'r hyn y ceir staff eraill ledled y Coleg. Cafodd y Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol drafodaethau pellach yn berthnasol â chydabyddiaeth ariannol deiliaid swydd uwch eraill. Cymerodd hyn fwy o amser nag y disgwyl a chymeradwywyd dyfarniad yn unol â'r hyn a roddwyd i staff yn y cyfarfod Bwrdd mis Rhagfyr 2019.

### **Presenoldeb 2018-19**



### **Mynediad at wybodaeth**

Mae Corfforaeth Coleg Gwent wedi ymrwymo i fod yn agored ac yn atebol yn y modd y mae'n cynnal ei fusnes. Cymeradwyodd y Bwrdd Bolisi Mynediad at Wybodaeth sy'n anelu at hwyluso mynediad at wybodaeth y Gorfforaeth, rheoli faint o wybodaeth sy'n cael ei drin fel 'Cyfrinachol' a sicrhau bod y wybodaeth ar gael i'r cyhoedd.

Mae'r Polisi Mynediad at Wybodaeth yn gosod y meini prawf a ddefnyddir wrth ystyried a ddylid trin gwybodaeth fel cyfrinachol. Rhaid cyfiawnhau unrhyw benderfyniad i ddsbarthu deunydd yn erbyn y meini prawf hyn, a chynhelir adolygiad o benderfyniadau felly yn flynyddol gan y Bwrdd.

Mae agendâu cyfarfodydd Bwrdd ar gael ar wefan Coleg Gwent ynghyd â gwybodaeth ynghylch sut i ofyn am gopiâu o bapurau Bwrdd eraill nad ydynt yn gyfrinachol.

### **DATBLYGIADAU ALLWEDDOL**

Mae'r Bwrdd yn derbyn diweddariadau rheolaidd ac wedi bod yn falch o nodi cynnydd parhaus yn erbyn y Strategaethau Dysgu ac Addysgu a Thechnoleg a gymeradwywyd ym mis Mai 2017. Mae wedi cymeradwyo gwariant cyfalaf i gefnogi darparu'r strategaethau hyn, gan gynnwys meddalwedd dangosfwrdd data a gwybodaeth busnes newydd, gwelliannau i offer ac isadeiledd TG a chyflwyno isadeiledd rhith cyfrifiadur i gefnogi defnydd ehangach o ddyfeisiau symudol ar draws y coleg.

Ym mis Tachwedd 2018, cyhoeddwyd mai enw canolfan ôl-16 newydd Cwmbrân fyddai Parth Dysgu Torfaen. Mae'r Coleg yn parhau i fod â phartneriaeth effeithiol gyda Chyngor Bwrdeistrefol Sirol Torfaen ac mae cynnydd rhagorol wedi ei wneud. Mae'r prosiect ar amser ac mae'r gwaith

cynllunio ar gyfer y trosglwyddo eisoes yn mynd rhagddo, a disgwylir croesawu'r myfyrwyr cyntaf ym mis Medi 2020.

Mae'r Bwrdd yn derbyn diweddariadau strategol rheolaidd ac wedi cymeradwyo gwariant i gyfarparu'r adeilad newydd.

Mae'r Bwrdd hefyd yn monitro yn ofalus datblygiad canolfan rhagoriaeth ar gyfer arlwy, lletygarwch a thwristiaeth ar Gampws Brynbuga. Sicrhawyd cyllid Ysgolion yr 21ain Ganrif ar gyfer treuliau'r fenter hon ac mae'r Bwrdd wedi cymeradwyo'r gwariant cyfalaf angenrheidiol. Mae'r gwaith cynllunio'n parhau ac mae'r Bwrdd yn edrych ymlaen at weld y prosiect yn siapio yn ystod y flwyddyn academaidd nesaf.

Ym mis Mawrth 2019, cymeradwyodd y Bwrdd gynnig i ailstrwythuro'r Coleg yn sylweddol. Prif ffocws y gwaith ailstrwythuro oedd gwella ansawdd a safoni'r ddarpariaeth, wrth gryfhau cysylltiadau â chyflogwyr. I gyflawni hyn, bu symud oddi wrth ddull yn seiliedig ar gampws i strwythur cyfadran ac mae'r ddarpariaeth hyfforddiant masnachol wedi'i ddwyn yn ôl yn 'fewnol'. Mae'r strwythur llywodraethu newydd yn plethu'r newidiadau gweithdrefnol hyn yn dda a bydd pwyllgorau'r Bwrdd yn chwarae rôl oruchwylio allweddol wrth symud ymlaen.

## **AMRYWIAETH**


Ym mis Gorffennaf 2018, cymeradwyodd y Bwrdd Gynllun Cydraddoldeb Strategol Coleg Gwent newydd, yn cydnabod pwysigrwydd gwreiddio cydraddoldeb a hyrwyddo amrywiaeth ym mhob agwedd o'r Coleg. Mae'r Bwrdd wedi ymrwmo i'r egwyddorion a osodwyd yn y Cynllun Cydraddoldeb Strategol ac yn monitro cynnydd yn erbyn y targedau a nodwyd. Darperir diweddariadau rheolaidd gan y Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol ar y cynnydd yn erbyn y targedau hynny

Mae amrywiaeth y Bwrdd Corfforaethol yn cael ei monitro gan y Pwyllgor Chwilio sy'n adolygu'r Adroddiad Sgiliau ac Amrywiaeth blyneddol. Mae'r adroddiad hwn yn llywio'r broses recriwtio. Wrth recriwtio Llywodraethwyr newydd, mae'r Gorfforaeth yn defnyddio ystod o offer i gyrraedd cronfa eang o ymgeiswyr posibl. Mae hyn yn cynnwys cyswllt uniongyrchol, gwefannau, cyfryngau cymdeithasol, safleoedd recriwtio, y gymuned fusnes a phroffesiynol, a rhwydweithiau busnes. Mae swyddi gwag hefyd yn cael eu hysbysebu trwy Chwaraeteg a Chyngor Hil Cymru.


Ym mis Gorffennaf 2018, cymeradwyodd y Pwyllgor Chwilio Gweithdrefn newydd ar gyfer Recriwtio, Penodi a Chynefino Aelodau o'r Gorfforaeth. Gwneir pob penodiad ar sail teilyngdod a'r flaenoriaeth bob amser yw sicrhau bod gan y Bwrdd y cydbwysedd cywir o sgiliau a phrofiad y mae ei angen i gyflawni ei gyfrifoldebau yn effeithiol.

Amrywiaeth ym mis Gorffennaf 2019:

### **Amrywiaeth rhyw**



### Proffil oed



### Mesurau amrywiaeth eraill

- 1 Siaradwr Cymraeg
- 1 Anabledd wedi'i ddatgan
- 15 Gwyn Prydeinig
- 1 Gwyddelig Gwyn
- 1 Asiaidd/Affganaidd

### SWYDDOG LLYWODRAETHU

Swyddog Llywodraethu Corfforaeth Coleg Gwent ar gyfer 2018-19 oedd Mrs Marie Carter. Mynychodd holl gyfarfodydd Bwrdd y Gorfforaeth a chyfarfodydd pwyllgor y flwyddyn gan eithrio'r Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol a chyfarfod y Bwrdd ym mis Chwefror 2019. Gweithredodd Dan Coles fel Swyddog Llywodraethu ar gyfer y cyfarfod ym mis Chwefror yn ei habsenoldeb.

Mae'r Swyddog Llywodraethu yn mynychu cyfarfodydd Rhwydwaith Llywodraethu Addysg Bellach Cymru ac mae'r rhain yn rhoi cyfle i rannu arfer gorau a thrafod materion llywodraethu. I gefnogi ei datblygiad parhaus, yn ystod 2018-19, cwblhaodd Mrs Carter ei Thystysgrif Lefel 6 mewn Llywodraethu Corfforaethol gyda ICOSA, y Sefydliad Llywodraethu Siartredig, yn llwyddiannus. Hefyd, cwblhaodd fodiwlau hyfforddi ar-lein mewn lechyd a Diogelwch a GDPR/Diogelu Data.

## **DATGANIAD SICRWYDD**

Cyn belled ag y gall fod yn rhesymol ymwybodol, mae Swyddog Llywodraethu Coleg Gwent yn fodlon bod Corfforaeth Coleg Gwent wedi cyflawni ei chyfrifoldebau statudol yn y flwyddyn hyd at 31 Gorffennaf 2019, a chwblhawyd holl fusnes Bwrdd y Gorfforaeth a'i bwyllgorau yn unol ag Offeryn ac Erthyglau Llywodraethu Coleg Gwent a'r holl ddeddfwriaethau a chanllawiau perthnasol.

Mae hi hefyd o'r farn bod gweithgareddau'r Gorfforaeth yn bodloni'r disgwyliadau arfer gorau fel y nodwyd yn y Cod Llywodraethu Da ar gyfer Colegau yng Nghymru.

..... **Marie Carter, Swyddog Llywodraethu**

Mae'r adroddiad hwn wedi ei adolygu gan Fwrdd y Gorfforaeth a hyd eithaf ein gwybodaeth yn gofnod cywir a theg o fusnes y Gorfforaeth yn y flwyddyn hyd at 31 Gorffennaf 2019.

..... **Mark Langshaw MBE, Cadeirydd y Gorfforaeth**